*This document is available in English* **Eitem Agenda 8**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **21 Gorffennaf 2025** |
| Swyddog Arweiniol | **Justin Evans, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol** |
| Swyddog Cyswllt | **Lee Bourne, Rheolwr Prosiect y Ganolfan Hyfforddi** |
| Pwnc | **Diweddariad ar Brosiect y Ganolfan Hyfforddi** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Rhoi diweddariad o ran cynnydd i'r Aelodau ar brosiect y ganolfan hyfforddi, gan grynhoi datblygiadau ar draws amserlenni cyfreithiol, cyfathrebu, dylunio, ecoleg a rhaglenni.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2 Mae prosiect y ganolfan hyfforddi yn parhau i symud ymlaen yn gyflym. Yn dilyn y cyfarfod dylunio ffurfiol cyntaf ym mis Mehefin, mae'r gwaith wedi canolbwyntio ar gynllunio, ecoleg ac ymarferoldeb y dyluniad. Ar ôl caffael, mae'r contract ar gyfer y prif ymgynghorydd dylunio wedi'i lofnodi. Mae cynllun cyfathrebu wedi'i ddatblygu ac mae'r gwaith ymgysylltu â chymdogion y safle wedi dechrau. Mae cyfyngiad tymor byr ar waith clirio oedd wedi'i gynllunio ar y safle wedi'i gyflwyno yn dilyn asesiad ecolegol. Mae dyluniad y safle yn cael ei ddatblygu i gyflawni safon gynaliadwyedd ardderchog (BREEAM[1]), gydag amcangyfrif o'r sgoriau ar hyn o bryd yn uwch na'r trothwy isaf. Mae gwaith modelu costau a gwerthuso opsiynau ar y gweill i gefnogi'r achos busnes amlinellol.

## ARGYMHELLIAD

3 Argymhellir bod yr Aelodau'n:

**a) Nodi cynnydd prosiect y Ganolfan Hyfforddi.**

## CEFNDIR

4 Mae datblygu canolfan hyfforddi newydd sy'n addas i'r diben yn parhau i fod yn flaenoriaeth strategol i Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth), gan ymateb i risg weithredol, materion cydymffurfio ac anghenion y gweithlu yn y dyfodol. Mae'r prosiect yn symud yn ei flaen i'r cyfnod dylunio a chostio cynnar, gyda gwaith llywodraethiant parhaus trwy Fwrdd y Prosiect a Thîm Arweinyddol y Gwasanaeth.

---

[1] BREEAM | Sustainable Building Certification

**GWYBODAETH**

**Cyfreithiol**

5 Yn dilyn proses gaffael gydymffurfiol a thimau cyfreithiol diwydrwydd dyladwy pellach ar gyfer Gleeds a'r Gwasanaeth, mae Veale Wasbrough Vizards (VWV) wedi cadarnhau parodrwydd i lofnodi dogfennaeth contract Perfect Circle.

6 Cytunwyd y bydd unrhyw elfennau gwerth cymdeithasol sy'n weddill yn cael eu cwblhau yn ôl-weithredol.

**Cyfathrebiadau**

7 Mae llythyrau wedi'u dosbarthu â llaw i'r holl eiddo preswyl a masnachol ger y safle hyfforddi arfaethedig, yn esbonio cwmpas y gwaith cychwynnol a'r bwriad i gynnal digwyddiad agored i weld cynlluniau a thrafod cynigion.

8 Mae'r gwaith ymgysylltu â chynghorwyr lleol wedi dechrau.

**Gwaith Dylunio a Thechnegol**

9 Cynhaliwyd y cyfarfod dylunio cyntaf ar 26 Mehefin 2025 gyda phresenoldeb gan yr ymgynghorwyr dylunio, penseiri, peirianwyr mecanyddol a thrydanol, aseswyr BREEAM a chynghorwyr ecolegol penodedig, a staff y Gwasanaeth, gan gynnwys cynrychiolwyr hyfforddiant yr ochr weithredol.

10 Mae'r arolygon canlynol wedi'u cwblhau:

- Arolwg Topograffig
- Arolwg GPR
- Arolwg Cyfleustodau
- Archwiliad o'r Safle – Cam 1a  Cham 2 Interim
- Arolwg ordnans heb ffrwydro
- Asesiad o ganlyniadau llifogydd
- Arolwg Coedyddiaeth
- Cynllun parth gwahardd iechyd a diogelwch
- Llythyr interim cyn gwneud cais cynllunio
- Arolwg ecolegol sylfaenol

11 Mae'r drwydded ar gyfer rheoli madfallod dŵr cribog wedi'i sicrhau ac mae gwaith ar y safle wedi'i raglennu.

12 Mae'r briff dylunio yn mynd rhagddo gyda gofyniad i'r safle fod yn niwtral o ran carbon a chyrraedd statws BREEAM Rhagorol (sgôr targed: 75%). Mae hyn yn bwysig er mwyn cefnogi'r gwaith o ddatblygu achos busnes deniadol ar gyfer cyllid.

**Diweddariad Ecolegol**

13 Cadarnhawyd bod nythaid o gwtiaid torchog bach (rhywogaeth Atodlen 1) ger ardal fynediad arfaethedig y safle. Mae cyfyngiad cyfreithiol ar waith bellach rhag tarfu arnynt.

14 Caniateir gwaith tawel, â llaw yn rhan ogleddol y safle, ond gwaherddir mynediad ac unrhyw waith gyda pheiriannau nes bod y cywion wedi hedfan o’r nyth.

15 Gallai hyn achosi oedi o sawl wythnos neu, o bosibl, sawl mis cyn dechrau ar y gwaith o glirio’r safle. Mae'r sefyllfa'n cael ei monitro'n agos ac mae’r effeithiau ar amserlenni’r prosiect yn cael eu hystyried.

**Modelu Costau ac Opsiynau**

16 Gofynnwyd am gostau cenedlaethol am:

- Ganolfan hyfforddi yn unig;
- Canolfan hyfforddi gyda phencadlys;
- Canolfan hyfforddi gyda'r holl swyddogaethau corfforaethol; a
- Chyfleuster preswyl (wedi'i gynnwys ar gyfer cyflawnrwydd ac i brofi arbedion effeithlonrwydd posibl)

17 Bydd yr opsiynau hyn yn sail i’r rhestr fer yn yr Achos Busnes Amlinellol.

**Dyddiadau Allweddol y Prosiect**

18 Llinell Amser y Prosiect (Dylunio)

– Diwedd Awst 2025: briff dylunio cyflawn
– Canol Tachwedd 2025: cwblhau cam 1 RIBA
– Canol Tachwedd 2025: cwblhau Achos Busnes Amlinellol
– Diwedd Mai 2026: cwblhau RIBA 2/3
– Mehefin 2026: cyflwyno cais cynllunio
– Canol Tachwedd 2026: cwblhau cam 4a RIBA
– Mawrth 2027: cytuno ar bris contract
– Awst 2027: amcan o ddyddiad dechrau ar y safle
– Ionawr 2029: cwblhau’r prosiect

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r prosiect yn cefnogi gwydnwch y gweithlu yn yr hirdymor, cynaliadwyedd amgylcheddol, ac anghenion hyfforddi yn y dyfodol. |
| Cyllideb | Mae cyllid cyfalaf yn parhau i fod yn amodol ar gymeradwyo’r achos busnes. Mae opsiynau cost yn cael eu datblygu a byddant yn cael eu cyflwyno yng nghyfarfod nesaf bwrdd y prosiect. |
| Cyfreithiol | Mae cydymffurfio â chyfraith amgylcheddol yn hanfodol oherwydd amddiffyn adar Atodlen 1. Mae gofynion dylunio a rheoli gwaith adeiladu yn cael eu trafod ar hyn o bryd. |
| Staffio | Mae mewnbwn gan staff hyfforddiant gweithredol yn sail i’r cynllun a’r dyluniad. Mae cymorth ychwanegol yn cael ei ystyried er mwyn rheoli’r gwaith o gyflawni’r rhaglen. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Mae’r gwaith ymgysylltu â'r gymuned wedi dechrau. Bydd deunyddiau dwyieithog yn cael eu darparu mewn digwyddiadau ymgynghori yn y dyfodol. |
| Risgiau | Gall cyfyngiadau ecolegol beri oedi o ran y gwaith galluogi.<br><br>Rhaid cydbwyso pwysau cost ac uchelgeisiau dylunio er mwyn cefnogi fforddiadwyedd.<br><br>Disgwylir newid i feini prawf asesu BREEAM yn haf 2025. Gallai prosiectau nad ydynt wedi'u cofrestru o fewn 3 mis wynebu meini prawf asesu llymach. |